**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR SAFONAU** |
| **PWNC:** | **PWYLLGOR SAFONAU - DYDD MAWRTH, 19 GORFFENNAF 2022 DYDD MAWRTH, 19 GORFFENNAF 2022** |
| **ADRODDIAD GAN:** | |

---

PRESENNOL: R. ALEXANDER (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: Lynch
Rosser
S. Williams
J. Thomas

A:

| **EITEM** | **PWNC** | **GWAITH** |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer:<br>Cynghorydd M. Cross a Helen Roberts. | |
| **No. 3** | **CYFLWYNO A CHROESAWU AELODAU NEWYDD**<br><br>Rhoddwyd cyflwyniadau. | |
| **No. 4** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 5** | **<u>COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2022.<br><br>Yn dilyn trafodaeth fer,<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor Safonau i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 6** | **<u>ADNEWYDDU TELERAU SWYDD</u>**<br><br>Esboniodd y Swyddog Llywodraethiant a Diogelu Data aelodaeth y pwyllgor fel sy'n dilyn.<br><br>Nid yw unrhyw Aelod i wasanaethu am gyfnod o 10 mlynedd (i gynnwys un cyfnod o 6 mlynedd ac ail gyfnod o 4 mlynedd).<br><br>Dywedwyd fod dau Aelod o'r Pwyllgor wedi cyrraedd eu tymor cyntaf 6 mlynedd, sef Ronnie Alexander a Helen Roberts. Fodd bynnag, mae Helen Roberts wedi penderfynu peidio cymryd ail dymor, ac fel canlyniad byddai lle gwag ar y Pwyllgor.<br><br>Wedyn cynigiwyd ymestyn lle Ronnie Alexander ar y Pwyllgor yn ffurfiol am gyfnod o 4 mlynedd, a chafodd hyn ei eilio a'i GYTUNO. | |
| **No. 7** | **<u>ADNEWYDDU CADEIRYDD</u>**<br><br>Gwahoddwyd enwebiasdau ar gyfer penodi Cadeirydd ar gyfer 2022/23.<br><br>CYTUNWYD y dylai Mr. R. Alexander gael ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022/23.<br><br>Wedyn gwahoddwyd enwebiadau ar gyfer penodi Is-gadeirydd, a CHYTUNWYD penodi Mr. S. Williams yn is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022/23. | |
| **No. 8** | **<u>ADRANNAU 62 A 63 DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021: DYLETSWYDDAU ARWEINWYR GRWPIAU GWLEIDYDDOL</u>**<br><br>Bu trafodaeth pan godwyd y pwyntiau gweithredu dilynol: | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Awgrymodd Aelod y dylid cynnal adolygiad o nifer y Penderfyniadau Lleol a gynhelir gan y Swyddog Monitro.<br><br>• Awgrymodd Aelod hefyd y dylid dod â throsolwg o waith y Tîm Gwasanaethau Democrataidd, o ran yr hyfforddiant a ddarperir ar gyfer Aelodau etholedig, i'r Pwyllgor Safonau.<br><br>• Ystyried cofrestr buddiannau.<br><br>• Rhoddwyd hyfforddiant i Aelodau ar oddefebau, a chynigir hyfforddiant pellach.<br>• Bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cwrdd gydag Arweinwyr grwpiau gwleidyddol. | |
| **No. 9** | **<u>BLAENGYNLLUN GWAITH/GOFYNION HYFFORDDIANT</u>**<br><br>Codwyd y pwyntiau dilynol:<br><br>Rhestr cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn.<br><br>Swyddogion Monitro i baratoi rhestr o hyfforddiant a gynigiwyd i Aelodau. | |
| **No. 10** | **<u>UNRHYW FATER ARALL/DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</u>**<br><br>Cyfarfod gydag Arweinwyr Grwpiau ym mis Hydref.<br><br>Pwyllgor nesaf y Pwyllgor Safonau – Ionawr, i'w gadarnhau. | |